



Independent
Monitor

Monitor Annibynnol

Adroddiad Blynyddol

2024



Dyma ddeuddegfed Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol (IM) ar gyfer y drefn datgelu a gwahardd. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2024. Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf fel y Monitor Annibynnol newydd ei benodi, swydd a ddechreuais ddiwedd mis Ionawr eleni. Hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenydd, Julia Wortley a ddaliodd y swydd hon am y 6 blynedd diwethaf a digwyddodd y manylion a'r ystadegau rwy'n adrodd arnynt yn ystod ei chyfnod ac maent yn adlewyrchu'r ymdrech a wnaeth hi a'i thîm i'r gwaith pwysig hwn.

Cyflwyniad

Nid oes unrhyw argymhellion newydd yn yr Adroddiad hwn, ac rwyf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am holl argymhellion blaenorol y IM. Ysgrifennodd y Gweinidog Diogelu at fy rhagflaenydd ar 22 Hydref 2024 gyda'i hymateb i Adroddiad Blynyddol 2023. Cyhoeddwyd llythyr y Gweinidog gydag Adroddiad y llynedd.

Trosolwg o'r flwyddyn

Mae galw mawr o hyd ar draws y gyfundrefn datgelu a gwahardd yng Nghymru a Lloegr, gyda Gogledd Iwerddon yn gweld gostyngiad. Yn 2024, cododd y galw am Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manwl (ECRC) a gyhoeddwyd gan yr heddlu gyda 'gwybodaeth ychwanegol' 2.0% ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gyda gostyngiad o 11.7% ar gyfer Access NI (ANI). Yn 2024, cyhoeddodd y DBS 5,182 o dystysgrifau datgelu ychwanegol ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manwl, a gwnaeth ANI 279 o ddatgeliadau o'r fath. Yr achosion hyn yw lle mae'r heddlu wedi asesu gwybodaeth nad yw'n ymwneud â chollfarn yn erbyn y profion a amlinellir yn y Canllawiau Statudol ac wedi penderfynu y dylai fod datgeliad. Nid yw bron pob achos y mae'r heddlu'n delio ag ef yn arwain at ddatgeliad.

Mae gan y gyfundrefn ddatgelu gyfrifoldeb pwysig am asesu, deall a lle bo'n briodol rhannu gwybodaeth sy'n dynodi risg. Mae'r gyfundrefn yno i amddiffyn y cyhoedd, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed, ac mae'n parhau i ymateb yn dda i'r gofynion gweithredol sylweddol.

Atgyfeiriadau IM

O ran cyfundrefn yr ECRC, cyfeiriodd y DBS 195 o achosion anghydfod datgelu i swyddfa'r Monitor Annibynnol, tra cyfeiriodd yr ANI 3. Mae'r ffigur o 198 o anghydfodau a gyfeiriwyd yn gynydd a gofnodwyd gan y Monitor Annibynnol, cynnydd o 32.9% ar y flwyddyn flaenorol, 2023. I roi hyn mewn cyd-destun pellach, yn 2022 cyfeiriwyd 129 o achosion ar gyfer adolygiad IM, ac yn 2023, 149. Er bod hwn yn dwf sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, rhaid gweld y niferoedd yng nghyd-destun y 5,461 o dystysgrifau a gyhoeddwyd gyda gwybodaeth ychwanegol, a dim ond 3.6% ohonynt a arweiniodd at anghydfod ac adolygiad IM. Mae'r twf hwn yn cynrychioli galw ychwanegol am y broses IM, ac o'i gymharu, yn 2023 cafodd 2.76% eu herio i swyddfa'r IM ac yn 2022, 2.54%

Gogledd Iwerddon

Estynnodd Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015 rôl y Monitor Annibynnol i gynnwys adolygu anghydfodau datgelu a wnaed yng Ngogledd Iwerddon. Fel y nodwyd uchod, cyfeiriwyd tri achos dadleuol gan ANI ar gyfer adolygiad annibynnol eleni.

Fel rhan o'r dyletswyddau statudol, rwyf hefyd wedi adolygu sampl o

ddeg achos datgelu a ddewiswyd ar hap o Ogledd Iwerddon eleni. Nodwyd sawl pwynt dysgu trwy'r ymarfer hwn, ond dim pryderon sylweddol. Darparwyd adborth manwl o'r ymarfer samplu hwn i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon i'w ystyried.

Samplu Achosion Datgelu yng Nghymru a Lloegr


Fel sy'n ofynnol o dan adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997, rwyf hefyd wedi cynnal ymarfer samplu hap o benderfyniadau datgelu a gymerwyd gan heddluoedd ledled Cymru a Lloegr yn 2024.

Fel rhan o'm rôl, mae'n ofynnol i mi gynnal samplu hap o achosion ac ym mis Mai a mis Mehefin eleni, samplais gyfanswm o hanner cant o benderfyniadau datgelu a ddewiswyd ar hap o 2024, a dynnwyd o bum heddlu gwahanol ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn ychwanegol at y sampl o achosion o Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon y cyfeirir ato uchod. Roedd hanner yr achosion hyn lle bu taro cudd-wybodaeth nad oedd yn euogfarn a gafodd ei wrthod, sy'n golygu ar ôl asesu a chymhwyso'r profion statudol, penderfynodd yr heddlu na ddylid datgelu'r deunydd ar Dystysgrif. Yr hanner arall oedd achosion lle'r oedd y penderfyniad yn nodi bod y manylion yn arwydd o risg, yn bodloni'r profion statudol a dylid eu datgelu.

Ar ôl ystyried pob achos a samplwyd yn ofalus, nodwyd pwyntiau dysgu perthnasol trwy'r ymarfer hwn, ond ni nodwyd unrhyw bryderon sylweddol. Rwyf wedi rhoi adborth unigol i bob un o'r heddluoedd dan sylw, i'w hystyried. Rwyf hefyd wedi rhannu'r holl ddysgu generig o'r ymarfer samplu hwn drwy'r Fforwm Datgelu Cenedlaethol ac yn fwy lleol drwy'r Fforymau Datgelu Rhanbarthol, a chyda'r arweinydd cenedlaethol ar gyfer y pwnc yng Nghyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC).

Fy mhrif arsylwad o'r samplu hap a gefnogir gan yr achosion rwyf wedi'u hadolygu'n annibynnol hyd yma, yw bod gwasanaeth heddlu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn wyliadwrus wrth asesu gwybodaeth, cudd-wybodaeth a data di-euogfarn a osodwyd yn erbyn y profion statudol. Y gwir amdani yw, mewn llawer o achosion lle bu taro cudd-wybodaeth, mai'r penderfyniad gan yr heddlu yw 'diystyru' y taro, sy'n golygu nad yw'r wybodaeth yn cael ei datgelu. Gall hyn fod am amrywiaeth o resymau ac weithiau mae'n benderfyniad cydbwysu anodd iawn gan fod yn rhaid i'r wybodaeth fod yn gredadwy, yn ddifrifol, yn gyfredol ac yn unol â'r pwrpas rhagnodedig, a rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Y gwir amdani yw, lle mae penderfyniad i ddiystyru, bod gwybodaeth a data am unigolyn, ond nid yw'n cael ei ddatgelu, sy'n golygu bod risg ar ryw lefel wedi'i nodi, ond nad yw wedi'i hystyried yn angenrheidiol nac yn gymesur i'w chynnwys ar Dystysgrif. Mae gwneud yr asesiad hwn yn her wirioneddol i'r staff, y goruchwylwyr a rheolwyr yr heddluoedd, gan weithio yn ôl y canllawiau statudol a Fframwaith Sicrwydd Ansawdd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac rwy'n talu teyrnged i'r gwaith a wneir gan luoedd a thîm canolog y DBS.



Adolygiadau Barnwrol

Adolygiad Barnwrol yw'r ateb olaf sydd ar gael i unrhyw un sy'n anghytuno â'r wybodaeth a ddatgelwyd gan yr heddlu ar eu Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manwl. Nid oes unrhyw Adolygiadau Barnwrol sy'n cynnwys y Monitor Annibynnol wedi cyrraedd canlyniad Llys yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Amseroldeb Trin Anghydfodau Datgelu IM

Mae'r Canllawiau Datgelu Statudol yn nodi y dylid gwneud penderfyniadau datgelu mewn modd amserol. Rwy'n parhau i roi sylw manwl i'r cyflymder y mae anghydfodau datgelu IM yn cael eu datrys. Rhennir y cyfrifoldeb hwn ar wahanol gamau rhwng y DBS /ANI, yr heddlu a fy swyddfa fy hun.

Bu cynnydd bach o ran amseriadau adolygu a datrys anghydfodau yn fy swyddfa, yn bennaf oherwydd bod yr IM blaenorol wedi gorffen a minnau wedi dechrau fel yr IM newydd ddiwedd mis Ionawr eleni. Yn 2023 roedd y ffigur yn 28.3 diwrnod ac yn 2024 cododd hyn i 33.4 diwrnod. Mae agwedd yr heddlu ar ddelio ag anghydfodau tystysgrifau yn parhau i wella. Yn 2024 roedd cyfartaledd y dyddiau i'r heddlu yn 22.1 diwrnod. Mae'r patrwm hwn yn adeiladu ar welliannau a wnaed eisoes yn y ddwy flynedd flaenorol. Yn 2023, roedd nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerodd yr heddlu i gwblhau eu hadolygiad yng ngham cyntaf y broses anghydfod yn 22.5 diwrnod. Yn 2022, yr amser cyfartalog a gymerwyd oedd 43 diwrnod ac yn 2021, y cyfartaledd oedd 67 diwrnod.

Canllawiau Datgelu Statudol Diwygiedig y Swyddfa Gartref

Drwy gydol 2023, cynhaliodd y Swyddfa Gartref ymarfer ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr IM blaenorol, ynghylch y Canllawiau Datgelu Statudol. Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a diwygio hwn, cyhoeddwyd Pedwerydd Argraffiad Canllawiau Datgelu Statudol y Swyddfa Gartref ar 14 Chwefror 2024¹. Mae'r canllawiau hyn yn darparu proses glir o wneud penderfyniadau, yn amlinellu'r profion statudol ac yn cael eu cefnogi gan Fframwaith Sicrwydd Ansawdd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac amrywiaeth o gyfraith achosion berthnasol.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/statutory-disclosure-guidance>

Argymhellion o Adroddiadau Blynyddol IM Blaenorol

Adroddiad Blynyddol 2014

Gweler Atodiad B.

Adroddiad Cynnydd

Gweler Atodiad B.

Ymgysylltu

Gallaf adrodd, drwy gydol 2024, fod y Monitor Annibynnol blaenorol wedi parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, trwy gyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd yr ymgysylltiad hwn hefyd yn cynnwys mynychu cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol yr heddlu yn rheolaidd a bod yn aelod gweithredol o Grŵp Portffolio Datgelu'r NPCC. Yn 2024 roedd cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr polisi a gweithredol o'r Swyddfa Gartref, y DBS, yr ANI, yr NPCC ac unedau datgelu'r heddlu i nodi unrhyw faterion neu bryderon parhaus. Byddaf yn parhau â'r ymgysylltiad hwn yn ystod fy nghyfnod fel y Monitor Annibynnol.

Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol

Mae Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol yn gweinyddu llwyth achosion cynyddol y Monitor Annibynnol ac yn darparu cefnogaeth gyffredinol i swyddfa'r Monitor Annibynnol. Rwy'n gwerthfawrogi ymroddiad, gwaith caled a hyblygrwydd parhaus Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol yn 2024 yn fawr, ac yn enwedig am gynorthwyo fy nghyflwyniad cyflym i'r rôl ers diwedd mis Ionawr.

Crynodeb a Chasgliad

Mae holl swyddogaethau statudol y Monitor Annibynnol wedi'u cyflawni'n llwyddiannus drwy gydol y flwyddyn.


Yn 2024, cyfeiriwyd cyfanswm o 198 o achosion anghydfod datgelu at swyddfa'r Monitor Annibynnol i'w hadolygu'n annibynnol. Dyma'r nifer uchaf o atgyfeiriadau ers 2017 a dderbyniwyd gan swyddfa'r Monitor Annibynnol mewn blwyddyn galendr; fodd bynnag, mae cyfran yr atgyfeiriadau achosion IM lle mae anghydfod gan yr ymgeisydd yn dal i fod yn llai na 3.6% o holl ddatgeliadau ECRC yr heddlu a wnaed, sy'n golygu nad yw dros 96% o ddatgeliadau Tystysgrif yr heddlu yn cael eu herio. Darperir dadansoddiad llawn o sut y cwblhawyd yr achosion anghydfod IM hynny isod.

Nid oes unrhyw argymhellion newydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac mae pob Argymhelliad IM blaenorol bellach wedi'i gau.



Mick Creedon

MonitorAnnibynnol



Mae'r tabl yn Atodiad B yn crynhoi holl argymhellion a chatau gweithredu blaenorol y IM. Mae cynnydd ar unrhyw argymhellion sy'n weddill wedi'i grynhoi isod.

Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu oddi tanynt



Penodir y Monitor Annibynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddo bedair dyletswydd statudol; un ohonynt yw cyhoeddi Adroddiad Blynnyddol, un arall yw gwneud argymhellion perthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r ddwy swyddogaeth IM arall yn ymwneud yn uniongyrchol â datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manwl person.


Yn unol ag adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997, rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion lle mae gwybodaeth am euogfarnau'r heddlu wedi'i chynnwys, neu heb ei chynnwys, ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manwl o dan adran 113B (4) o'r Ddeddf. Pwrpas yr adolygiadau hyn yw sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu a chydymffurfiaeth ag Erthygl 8 o Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Yn dilyn yr adolygiadau 'samplu ar hap' hyn, mae'r Monitor Annibynnol yn rhoi adborth i'r heddluoedd perthnasol.

O dan adran 117A o Ddeddf 1997, mae gan y Monitor Annibynnol rôl arall i ystyried yr achosion hynny lle mae person yn credu nad yw'r wybodaeth a ddatgelwyd gan yr heddlu o fewn Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manwl yn berthnasol i'r gweithlu y maent yn gwneud cais amdano, neu na ddylid ei datgelu.

Pan wneir cais am Dystysgrif manwl, cyfeirir manylion yr ymgeisydd at unrhyw heddlu a allai ddal gwybodaeth am yr ymgeisydd. Mae hyn yn galluogi'r heddlu i wirio eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y maent yn credu'n rhesymol ei bod yn berthnasol i'r diben rhagnodedig y ceisir y Dystysgrif ar ei gyfer ac i ystyried a ddylid ei datgelu. Yn dilyn penderfyniad gan yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth, os yw ymgeisydd yn dymuno herio perthnasedd a/neu gymesuredd y datgeliad, cynhelir cam cyntaf y broses adolygu IM, ar gais yr IM, gan yr heddlu perthnasol sy'n datgelu. Os yw'r ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad adolygiad yr heddlu, yna cyfeirir yr achos at yr IM i gael adolygiad annibynnol o'u hanghydfod datgelu.

Gweithrediad yr Ysgrifenyddiaeth a swyddogaeth y Monitor Annibynnol

Cyflwynwyd cyfrifoldeb y Monitor Annibynnol i adolygu atgyfeiriadau lle mae ymgeisydd yn anghytuno â gwybodaeth a ddatgelwyd gan heddluoedd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 (PoFA). Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth fach i gefnogi'r Monitor Annibynnol i gyflawni'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac ar hyn o bryd mae ganddi ddau aelod o staff llawn amser.



Cyn mis Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd yn y Ddeddf Diogelu Plant, dim ond apelio i Brif Gwnstabl yr heddlu perthnasol oedd yr opsiwn gan unrhyw un a oedd yn anafodlon â chywirdeb neu berthnasedd y wybodaeth a oedd yn ymddangos ar eu Tystysgrif fanwl. Os oedd yr ymgeisydd yn anafodlon â chanlyniad hyn, neu eiriad y testun, yna'r unig opsiwn oedd gofyn am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu. Byddai camau o'r fath yn gostus i'r ymgeisydd ac i'r DBS o ran amser ac adnoddau.

Mae rôl y Monitor Annibynnol bellach yn gweithredu fel haen ychwanegol o adolygiad cyn y gall person droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers mis Medi 2012 hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2024, mae'r Monitor Annibynnol wedi derbyn cyfanswm o 2,521 o atgyfeiriadau achos.

Unwaith y derbynnir achos, bydd Ysgrifenyddiaeth yr IM yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth sy'n ymwneud â'r achos a'r ymgeisydd am unrhyw sylwadau ychwanegol y maent yn dymuno eu gwneud. Ar ôl derbyn unrhyw sylwadau pellach, cyflwynir yr achos i'r Monitor Annibynnol i'w adolygu. Mae papurau achos yn cynnwys y Dystysgrif datgelu a ddarparwyd gan y DBS, ynghyd ag unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dogfennaeth ategol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Wrth adolygu anghydfod, mae'r IM yn dilyn y Canllawiau Statudol ac yn ystyried:

1. A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn gywir
2. A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol i'r diben rhagnodedig y cafodd y dystysgrif ei chael ar ei gyfer (ers 2012 mae hyn fel arfer ar gyfer gwaith o fewn y Gweithluoedd 'plant' a/neu 'oedolion' yn hytrach nag ar gyfer rôl benodol); ac
3. A ddylid datgelu'r wybodaeth, gan gynnwys;
 - a) Beth yw nod cyfreithlon y datgeliad?
 - b) A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i gyflawni'r nod cyfreithlon hwnnw; ac
 - c) A yw'r datgeliad yn gymesur, gan daro cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rhai y mae'r datgeliad yn ceisio eu hamddiffyn.

Ystyrir pob maen prawf yn gyfartal, nid oes pwysoli. Unwaith y bydd y Monitor Annibynnol wedi gwneud penderfyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Phrif Swyddog perthnasol yr heddlu i'w hysbysu am benderfyniad y Monitor Annibynnol.

Eglurhad

Nid yw'r Monitor Annibynnol yn delio â chwynion cyffredinol cwsmeriaid am y DBS. Caiff y rhain eu trin drwy weithdrefn gwynion y DBS. Rôl y Monitor Annibynnol yw ystyried atgyfeiriadau gan ymgeiswyr sy'n anghytuno â chynnwys 'gwybodaeth ychwanegol' yn eu Tystysgrifau datgeliad manylach a gyhoeddwyd gan y DBS. Mae angen Tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed ac mewn rhai swyddi penodol eraill fel gyrru tacsi.




Atgyfeiriadau Achosion Monitor Annibynnol: Crynodeb 2024

Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2024 a sut y cawsant eu datrys wedi hynny. Dangosir y ffigurau hyn mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol.


Mae 'Cynnal' yn cyfeirio at achosion lle mae datgeliad yr heddlu wedi'i gefnogi gan y Monitor Annibynnol yn ei gyfanrwydd a heb ei ddiwygio.

Siart 1 CHART BELOW – Siart 1 Cynnal/Arall. AT BOTTOM: Cynnal, Canlyniad Arall



Mae Siart 2 yn dadansoddi'r categori 'canlyniad arall' (yn Siart 1 uchod), i ddangos yn fanylach sut y cwblhawyd achosion lle na chafodd y datgeliad ei 'gynnal'.

Siart 2 CHART BELOW – Siart 2 Canlyniad Arall. AT BOTTOM, left to right, top line first: Tynnwyd gan yr ymgeisydd, Tynnwyd gan yr Heddlu, Tynnwyd gan y DBS, Wedi gwrthod Adolygu. Dileu'n rhannol, Diwygiwyd gan yr Heddlu, Dileu Popeth, Hen Achos



Bu cynnydd arall yng nghyfanswm yr atgyfeiriadau a wnaed i'r IM yn 2024, sy'n cynrychioli'r nifer uchaf o achosion anghydfod a gyfeiriwyd ar gyfer adolygiad IM ers 2017. Fodd bynnag, dim ond ychydig bach y mae canran y datgeliadau dadleuol a atgyfeiriwyd at yr IM wedi cynyddu. Yn 2023, cafodd 2.76% o'r holl ddatgeliadau a wnaed ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu herio ac yna eu cyfeirio at yr IM ar gyfer adolygiad annibynnol. Fodd bynnag, yn 2024 cododd y ffigur hwn i 3.63% o'r holl ddatgeliadau a wnaed.

Gyda rhai anghydfodau, gellid egluro'r wybodaeth a ddatgelwyd trwy ddiwygio. Mewn achosion o'r fath, caiff testun y datgeliad ei ddiwygio gan yr heddlu yn ystod y broses adolygu anghydfodau. Mae'r achosion hyn wedi'u categorïddio yn Siart 2 fel 'wedi'u diwygio gan yr heddlu' ac maent yn ffurfio 36% o'r holl 'ganlyniadau eraill' yn 2024.


Unwaith eto, roedd tri achos eleni lle penderfynodd yr ymgeisydd eu bod yn fodlon ar destun y datgeliad fel y'i diwygiwyd gan yr heddlu ac wedi hynny tynnwyd eu cais am adolygiad IM annibynnol yn ôl. Cofnodir yr achosion hyn yn Siart 2 fel 'Wedi'i dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd'. Tynnodd yr heddlu'r datgeliad yn ôl ar ôl adolygu tri achos yn 2024.

Mae polisi'r IM blaenorol yn parhau o beidio ag adolygu anghydfodau 'tu allan i amser' pellach pan gânt eu codi fwy na thri mis ar ôl i'r Dystysgrif gael ei chyhoeddi a lle nad yw'r 'diben rhagnodedig' yn bodoli mwyach, neu lle mae'n rhesymol credu mai dyma'r achos. Mae'r achosion anghydfod hyn tu allan i amser wedi'u cofnodi yn Siart 2 fel "hen achosion" ac maent yn cyfrif am 32% o'r holl "ganlyniadau eraill" yn 2024.

Gweithluoedd

Mae Siart 3 (isod) yn rhoi cymhariaeth o'r gweithluoedd perthnasol y mae ymgeiswyr wedi gwneud cais amdanynt. Mae Siart 3 yn dangos bod cyfran yr achosion ym mhob Gweithlu yn parhau i fod yn gyson â blynyddoedd blaenorol yn gyffredinol, ond gyda chynnydd yng nghanran y ceisiadau 'Gweithlu Oedolion' a 'Gweithlu Plant', gyda gostyngiad cyfatebol yn y Gweithlu(au) Plant ac Oedolion. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o anghydfodau (40% o atgyfeiriadau achosion IM) yn dal i fod gan ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am y gweithlu(au) Plant ac Oedolion).

Siart 3 CHART BELOW: Siart 3 % Gweithlu; AT BOTTOM: Plant, Oedolion, Y ddau, Arall



Nodyn: Ni chofnodwyd unrhyw anghydfodau yn y categori 'Gweithlu arall' yn 2012 na 2013 gan fod Gyrwyr Tacsî wedi'u hystyried yn rhan o'r gweithlu Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

Atodiad A: Llythyr y Gweinidog



Home Office

Jess Phillips MP
Gweinidog Diogelu a
Thrais yn erbyn Menywod a Merched

2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF
www.gov.uk/home-office

Y Swyddfa Gartref

Michael Creedon
Monitor Annibynnol

24 Hydref 2025

Annwyl Mick,

Diolch am eich Adroddiad Blynyddol 2024 a fydd yn cael ei gyhoeddi ar Gov.uk yn fuan.

Gan i chi ddechrau yn eich swydd ar 20 Ionawr 2025, mae eich adroddiad yn rhoi trosolwg defnyddiol o waith eich rhagflaenydd yn 2024 ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys unedau datgelu rhanbarthol, heddluoedd a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Nodaf hefyd nad ydych wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn.

Yn gywir iawn,

Jess Phillips AS
Gweinidog Diogelu a Thrais yn erbyn Menywod a Merched

Atodiad B: Tabl o argymhellion blaenorol

Argymhelliad	Blwyddyn gwneud	Statws	Sefyllfa bresennol
Iechyd Meddwl	2013	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Cyhoeddwyd canllawiau statudol diwygiedig ar gyfer achosion iechyd meddwl ym mis Awst 2015.
Galwedigaethau Cartref	2013	Wedi'i dderbyn yn Rhannol	Wedi'i gwblhau Diwygiodd y DBS y canllawiau i'r ymgeisydd a'r 'RB' yn 2015 a hyrwyddwyd hyn yn Newyddion y DBS.
Gweithlu yn erbyn Swydd yr Ymgeisiwyd amdani	2013	Heb ei Dderbyn	Codwyd y mater eto yn Adroddiad Blynyddol 2014 gyda'r ymateb blaenorol wedi'i ailadrodd.
Cyrff Cofrestredig	2013	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Gweithiodd y DBS gyda NACRO a CIPD i ddatblygu canllawiau i gyflogwyr ar sut i asesu a thrin gwybodaeth ar dystysgrif datgeliad.
Terfyn amser statudol ar gyfer anghydfodau	2014	Wedi'i dderbyn. Wedi'i gau fel 'Wedi'i Gwblhau'n Rhannol' gyda chyhoeddi Canllawiau Datgelu Statudol diwygiedig y Swyddfa Gartref ym mis Chwefror 2024	Wedi'i Gwblhau'n Rhannol Mae angen Deddfwriaeth Sylfaenol Newydd i gyflawni'r argymhelliad.
Proses ffurfiol i adolygu argymhellion	2014	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Strwythur cyfarfodydd ar waith.
Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgriadau Llys	2015	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Polisi a chanllawiau wedi'u hailgyhoeddi i ddarparwyr trawsgriadau llys.
Datblygu canllawiau ar Ddatgeliadau Trydydd Parti	2015	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Mae'r NPCC a'r Swyddfa Gartref wedi datrys y prif faterion.
Diwygio'r Canllawiau Datgelu Statudol	2019	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Canllawiau Datgelu Statudol Diwygiedig Trydydd Argraffiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021.